

MUDIAD CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



IS-BWYLLGOR CYLLID A RHEOLI
DYDD MAWRTH, 15 TACHWEDD, 2021
ZOOM, 7.30 yh

COFNODION

- CADEIRYDD:** Iwan Meirion **IS-GADEIRYDD:** Caryl Haf
- PRESENNOL:** Caryl Haf (Cadeirydd y Cyngor), Katie Davies (Cyn Gadeirydd y Cyngor), Aled Thomas (Cadeirydd Digwyddiadau a Marchnata), Sioned Davies (Is-Gadeirydd Cystadlaethau), Iwan Meirion (Cadeirydd Cyllid a Rheoli), Hefin Evans (Is-Gadeirydd y Cyngor), Dewi Davies a Dafydd Jones (Cadeirydd Pwyllgor yr Adeilad).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Mared Jones, (Cyfarwyddwr dros dro CFFI Cymru) a Claire Powell (CFFI Cymru)

FM/01/1922 CROESO A CHYFLWYNIADAU
Croesawodd Iwan Meirion bawb i'r cyfarfod.

FM/02/1922 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Nodwyd ymddiheuriadau gan Malcolm Thomas a Elliw Griffiths. .

FM/03/1922 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF - 31 AWST 2021
Cafodd y cofnodion eu cylchredeg cyn y cyfarfod a chytunwyd gan bawb a oedd yn bresennol i'w cymeradwyo.

FM/04/1922 PWYNTIAU GWEITHRED A MATERION YN CODI O'R COFNODION

GWEITHRED	SYLWADAU
Pwynt 1 Hyfforddiant Diogelu i gymryd lle i Staff Siroedd	Wedi ei weithredu
Pwynt 2 Glanhau'r Swyddfa i gymryd lle	Wedi ei weithredu
Pwynt 3 Cronfa Terence Meredith - fe wrthododd Banc Barclays y cais. Cytunwyd i fynd yn ôl at y cyfreithiwr a gofyn os fyddai'n bosibl i'r arian gael ei gynnal gan CFFI Cymru mewn cyfrif gyfyngiedig.	'Roedd hyn yn dal i fynd ymlaen. Cytunwyd i gysylltu gyda Kathryn Jones ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf Cyllid a Rheoli

FM/05/1922

GOHEBIAETH

Dim.

FM/06/1922

I GADARNHAU AMODAU GORCHWYL

Darllenwyd yr amodau gorchwyl a'u cadarnhau gyda'r newidiadau canlynol:

- a) Aelodau'r Pwyllgor – ychwanegwyd cadeirydd grŵp yr adeilad.
- b) Prif Weithredwr CFFI Cymru – cafodd ei ychwanegu i fod yn bresennol yn y cyfarfodydd.
- c) Nifer y cyfarfodydd – cytunwyd i gynnwys 'O leiaf 6 cyfarfod i'w gynnal bob blwyddyn aelodaeth'.

FM/07/1922

ETHOLIAD ARBENIGWYR PWYLLGOR

Cafodd y bobl canlynol eu hethol fel arbenigwyr pwyllgor:

- Malcolm Thomas
- Steve Hughson
- Hilary Jones
- Kathryn Jones

Awgrymwyd hefyd i ofyn i'r bobl canlynol os byddai'r pwyllgor eisiau cefnogaeth yn y dyfodol a fyddent yn fodlon cyfranu fel arbenigwyr:

- Dai Baker (Llywodraeth Cymru)
- Eifion Edwards
- Sam Kurtz

FM/08/1922

ADRODDIAD CYLLID

Cafwyd adroddiad fel a ganlyn gan Claire Powell, Rheolwr Cyllid a Rheoli:

- a) **Cyllideb 2021-2022** – rhannwyd y papurau cyllideb ar y sgrin ac fe drafodwyd bob adran, ar hyn o bryd mae'r gyfundrefn yn edrych ar weddill o £6113.96.
- b) **Lefi** – mae anfonebau i'w danfon allan i'r Siroedd datogi. Roedd £6960 ar ôl i'w dalu i mewn gan Siroedd yn datogi i FfCCFFI.
- c) **Dunbia** – 'roedd dau anfoneb wedi eu danfon allan yr wythnos diwethaf ac 'rydym yn aros am daliad ynglyn a'r cynllun ŵyn.
- d) **Cyfriflenni Banc** - cafwyd eu nodi fel £201,368.96, £124,256.22 a £294,166.91
- e) **Llofnodau'r Banc** – cytunwyd i symud Rhodri Lewis fel arwyddwr Banc ac ychwanegu Phil Ellis Prif Weithredwr CFFI Cymru.
- f) **Cronfa Adferiad Diwylliannol Rhan 1** – nodwyd fod yr adolygiad a dau elfen arall o'r brosiect yma heb eu cwblhau eto, ond gobeithir y byddai hyn yn digwydd unwaith fydd y Prif Weithredwr newydd yn ei swydd.
- g) **Office 365** – nid yw'r brosiect yma na'r gwariant wedi ei gwblhau eto ac mae eisiau ei symud ymlaen yn bellach.
- h) **Cais newydd am grant NYVO** – nodwyd fod cynnig newydd wedi ei ddanfôn at gronfa NYVO am swydd newydd gyda CFFI Cymru. 'Roedd y swydd yn gysylltiedig a iechyd meddwl.

FM/09/1922

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CFFI CYMRU

Rhoddyd adroddiad y Cyfarwyddwr gan Mared Jones, Cyfarwyddwr dros dro CFFI Cymru:

- a) **Staffio** – Fe fydd Phil Ellis yn dechrau gyda CFFI Cymru ar 22 Tachwedd 2021 ac wedi cael ei benodi fel y Prif Weithredwr newydd. Mae Swyddog newydd Materion Gwledig wedi cael ei phenodi ac ar ôl cael tystlythyr boddhaol gobeithir y bydd yn dechrau ym mis Ionawr 2022.
- b) **Grant NYVO** – mae adroddiad wedi cael ei grynhoi am y grant bresennol **NYVO** ac yn y broses o gael ei gyflwyno. Nodwyd y byddai'n rhaid i CFFI Cymru edrych am ymgynghorwr i wneud y gwaith gyda'r Marc Ansawdd. Fe gaiff hyn ei wneud ddiwedd mis Mawrth 2022.
- c) **Diolch** – Gorffennodd Mared drwy ddiolch i'r pwyllgor, swyddogion a'r staff am eu holl gefnogaeth yn ystod amser ei apwyntiad fel Cyfarwyddwr dros dro a dymunodd yn dda i'r mudiad yn y dyfodol.

FM/10/1922

EITEMAU AGENDA ITEMS & DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel:

- 25 Ionawr 2022
- 5 Ebrill 2022
- 7 Mehefin 2022
- 6 Medi 2022

FM/10/1922

UNRHYW FUSNES ARALL

- a) **IPADS** – codwyd nad oedd gan rai swyddogion iPads. Cytunodd Claire Powell i edrych i mewn i hyn.
- b) **WIFI** – nodwyd fod WIFI yn yr adeilad eisiau ystyried gan nad oedd yn ddigon da i'w ddefnyddio yn y cyfarfodydd mwy.

Gann ad oedd rhagor o fusnes, datganwyd y cyfarfod ar ben am 9.00yh.

CRYNODEB O WEITHREDIADAU

GWEITHRED	SYLWADAU
Pwynt 1 Ymddiriedolaeth Terence Meredith – dilyn i fyny trosglwyddo'r arian gyda CAFC a'r cyfreithiwr.	
Pwynt 2 Cwblhau newidiadau llofnod ar y cyfrif banc.	
Pwynt 3 Cronfa Adferiad Diwylliannol Rhan 1 – i roi adborth yn y cyfarfod nesaf gyda rhagor o wybodaeth ar ble rydym gyda'r prosiect hwn.	
Pwynt 4 Office 365 i ddilyn i fyny gyda BCCIT a phrosesu'r prosiect.	
Pwynt 5 I gysylltu gyda ymgynghorwr ynglyn a gwaith Marc Ansawdd.	
Pwynt 6 IPADS – i sicrhau fod gan y swyddogion presennol IPADS i'w defnyddio os yn dymuno.	

Pwynt 7 I edrych ar y WIFI a'i ddefnydd yn y dyfodol.	
---	--

Llofnod:

Dyddiedig: